



Deall Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn Sir y Fflint

Cefnogi Pobl Heddiw, Cynllunio at Yfory

Beth mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn ei wneud?

Mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn cefnogi pobl i fyw bywyd diogel, annibynnol a chyflawn cyhyd â phosibl. Rydym yn gweithio gyda'r canlynol:

- Pobl hŷn y mae angen gofal a chefnogaeth arnyn nhw.
- Oedolion ag anableddau corfforol.
- Pobl ag anableddau dysgu.
- Pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl.
- Gofalwyr di-dâl.
- Oedolion a all fod mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Ein rôl yw helpu pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw, cadw annibyniaeth lle bo modd, a gofalu a diogelu pan fo angen. Mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion hefyd yn chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty, atal argyfyngau a lleihau'r pwysau ar wasanaethau'r GIG.

Beth nad ydy Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn ei wneud?

Yn aml ceir camddealltwriaeth ynghylch yr hyn y gall Gofal Cymdeithasol i Oedolion ei ddarparu.

Nid yw Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn gwneud y canlynol:

- Darparu gwasanaethau i bawb sy'n cysylltu â ni.
- Disodli cefnogaeth y gellir ei darparu'n ddiogel gan deuluoedd, ffrindiau, cymunedau neu sefydliadau gwirfoddol.
- Ariannu gwasanaethau lle gellir diwallu anghenion drwy wybodaeth, cyngor, cefnogaeth gymunedol neu adnoddau eraill sydd ar gael.
- Rhoi cefnogaeth lle nad yw pobl yn bodloni'r meini prawf cymhwyso cenedlaethol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Rheoli amseroedd aros y GIG, argaeledd tai neu faterion cenedlaethol ehangach a all effeithio ar les pobl.

Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i asesu pobl a allai fod angen gofal a chymorth, ond dim ond lle bodlonir meini prawf cymhwyso statudol y gellir darparu cymorth a ariennir gan



y Cyngor. Caiff y rheolau hyn eu pennu'n genedlaethol ac maen nhw'n berthnasol ym mhob cwr o Gymru.

Poblogaeth Newidiol Sir y Fflint

Un o'r heriau mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu Gofal Cymdeithasol i Oedolion yw demograffeg sy'n newid.

Rhwng 2023 a 2034, disgwylir i boblogaeth Sir y Fflint heneiddio'n sylweddol:

- Bydd cynnydd o 20.8% (7,099 o bobl) yn nifer y bobl 65 oed a hŷn.
- Bydd cynnydd o 40.8% (3,553 o bobl) yn nifer y bobl 80 oed a hŷn.
- Disgwylir i nifer y trigolion sy'n byw gyda dementia gynyddu o bron i 32% (766 o bobl).

Sir y Fflint hefyd sydd â'r disgwyliad oes iach isaf yng Ngogledd Cymru, sy'n golygu bod llawer o drigolion yn treulio cyfran sylweddol o'u bywydau nes ymlaen yn byw gyda chyflyrau iechyd hirdymor ac anghenion gofal cynyddol.

Bydd y tueddiadau hyn yn parhau i gynyddu'r galw am:

- Ofal cartref.
- Gofal preswyl a nyrsio.
- Cefnogaeth dementia.
- Gwasanaethau rhyddhau o'r ysbyty.
- Cefnogaeth i ofalwyr di-dâl.

Y Galw Cynyddol am Wasanaethau

Mae effaith newid demograffig eisoes yn cael ei deimlo.

Dros y tair blynedd diwethaf mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi gweld:

- Cynnydd o 20% yn nifer y trigolion sy'n cysylltu am gymorth a chyngor.
- Cynnydd o 16% yn nifer y bobl sydd angen cynlluniau gofal a chymorth.
- Cynnydd o 37% yn nifer y bobl sydd angen cymorth ar ôl cael eu derbyn i'r ysbyty.
- Cynnydd o 47% mewn pecynnau gofal cartref newydd.
- Cynnydd o 22% mewn lleoliadau gofal preswyl a nyrsio.
- Cynnydd o 61% mewn adroddiadau diogelu oedolion.
- Cynnydd o 67% yn nifer yr oedolion sy'n ofalwyr di-dâl sydd angen cymorth.

Golyga hyn bod mwy o bobl angen cymorth nac erioed o'r blaen, yn aml gydag anghenion mwy cymhleth.



Cefnogi Gofalwyr Sir y Fflint

Gofalwyr di-dâl yw asgwrn cefn gofal iechyd a chymdeithasol.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae tua 18,000 o bobl yn Sir y Fflint yn ofalwyr di-dâl, y nifer uchaf yng Ngogledd Cymru.

Mae nifer y gofalwyr sydd wedi cofrestru gyda GOGDdC wedi cynyddu'n sylweddol, gyda thwf yn y nifer o oedolion a gofalwyr ifanc sy'n cofrestru dros y blynedd diwethaf. Mae oedolion sy'n cofrestru fel gofalwyr wedi mwy na dyblu ers 2019.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gwybodaeth, cyngor, cefnogaeth o ran lles a gwasanaethau ataliol i helpu gofalwyr i barhau yn eu rolau gofalu ac osgoi sefyllfaoedd o argyfwng.

Heriau Cenedlaethol sy'n Effeithio ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion

Mae'r pwysau sy'n wynebu Sir y Fflint yn cael eu profi ledled Cymru.

Dyma rai o'r prif heriau:

Costau Gofal yn Cynyddu

Mae'r gost o ddarparu gofal yn parhau i godi yn sgil:

- Chwyddiant.
- Costau'r gweithlu.
- Costau ynni a gweithredu.
- Cynnydd mewn costau cartrefi gofal.
- Cymhlethdod cynyddol o ran anghenion gofal.

Mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion ledled Cymru yn parhau i fod yn faes sydd â'r mwyaf o bwysau ariannol arno sy'n wynebu llywodraeth leol.

Heriau'r Gweithlu

Yn yr un modd â nifer o gynghorau, yr ydym ni'n wynebu heriau o ran recriwtio:

- Gweithwyr cymdeithasol.
- Therapyddion galwedigaethol.
- Gweithwyr gofal cartref.
- Gweithiwr gofal preswyl.



Mae'r prinder hwn yn cynyddu pwysau ar staff presennol a gall effeithio ar ba mor gyflym y gellir trefnu cymorth.

Rhyngddibyniaeth rhwng y GIG a Gofal Cymdeithasol

Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd yn dibynnu'n fawr ar ei gilydd.

Mae rhestrau aros y GIG, oedi o ran asesiadau, ac anghenion iechyd cynyddol i gyd yn rhoi pwysau ychwanegol ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion a gofalwyr di-dâl. Ar yr un pryd, mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn hanfodol er mwyn galluogi pobl i adael yr ysbyty yn ddiogel a dychwelyd adref â'r gefnogaeth gywir.

Yr hyn yr ydym ni'n ei wneud yn dda

Er gwaethaf pwysau cynyddol, mae Sir y Fflint yn parhau i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i drigolion.

Buddsoddi mewn Gwasanaethau Modern

Rydym ni wedi agor Tŷ Croes Atti, cartref gofal modern sy'n cynnig gofal preswyl, cymorth i bobl â dementia, a gwelyau rhyddhau i asesu pwrpasol i helpu pobl i adennill eu hannibyniaeth ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

Rydym ni hefyd wedi agor Coed y Ddraig, canolbwynt iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n cynnig cyfleoedd a chefnogaeth i oedolion ag anableddau dysgu, awtistiaeth ac anghenion iechyd meddwl.

Cefnogi Annibyniaeth

Rydym ni'n parhau i ganolbwyntio ar helpu pobl i barhau'n annibynnol ac i gysylltu â'u cymunedau.

Mae hyn yn cynnwys:

- Ehangu gwasanaethau ailalluogi.
- Cefnogi mwy o bobl drwy daliadau uniongyrchol.
- Datblygu gwasanaethau Micro-Ofal arloesol.
- Hyrwyddo cymunedau sy'n gyfeillgar i oed
- Cefnogi cymunedau sy'n deall dementia.

Cynnal Ansawdd

Bu i arolygiadau diweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru ganfod gwasanaethau o ansawdd da ar draws gwasanaethau preswyl, gofal cartref a gwasanaethau seibiant i oedolion yn Sir y Fflint.



Sut mae Llywodraeth Leol yn cael ei Hariannu?

Daw'r rhan fwyaf o gyllid Llywodraeth Leol o:

- Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru
- Ardrethi Annomestig.
- Incwm Treth y Cyngor.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddefnyddio'r adnoddau hyn i ariannu amrywiaeth eang o wasanaethau hanfodol gan gynnwys addysg, gofal cymdeithasol, priffyrdd, cymorth tai, gwasanaethau amgylcheddol a diogelwch cymunedol.

Pam mae Sir y Fflint yn cael ei heffeithio'n anghymesur?

Mae proffil demograffig Sir y Fflint yn creu heriau penodol.

Rydym ni'n wynebu:

- Cynnydd sylweddol yn nifer y preswylwyr hŷn.
- Cynnydd cyflym yn nifer y bobl dros 80 oed.
- Cynnydd yn nifer y bobl â dementia.
- Galw cynyddol am ofal preswyl, gofal cartref a gwasanaethau ar gyfer anabledau dysgu.

Y canlyniad yw bod y galw a'r costau yn tyfu'n gyflymach na'r adnoddau sydd ar gael.

Edrych i'r dyfodol

Bydd y galw am Ofal Cymdeithasol i Oedolion yn parhau i gynyddu dros y degawd nesaf.

Rydym ni'n canolbwyntio ar:

- Gefnogi pobl i barhau'n annibynnol.
- Cefnogi pobl gyda'u hanghenion gofal cymdeithasol ar ôl rhyddhau o'r ysbyty.
- Cefnogi gofalwyr di-dâl.
- Buddsoddi mewn gwasanaethau atal.
- Datblygu dewisiadau gofal lleol.
- Gweithio'n agos gyda phartneriaid iechyd a chymunedol.
- Defnyddio cyllid cyhoeddus yn gyfrifol ac yn gynaliadwy.

Ein Hymrwymiad

Mae gan Sir y Fflint enw da iawn o gefnogi pobl hŷn, oedolion anabl, gofalwyr a thrigolion diamddiffyn. Rydym ni'n parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau, cryfhau cymunedau a datblygu ffyrdd newydd o weithio. Fodd bynnag, mae sicrhau cynaliadwyedd hirdymor



Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn parhau i fod yn un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r Sŵn heddiw o ganlyniad i boblogaeth sy'n tyfu ac yn heneiddio, costau cynyddol ac anghenion mwy cymhleth.
